**Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion Cytundeb rhieni i dderbyn ymyriad gan y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion**

Dymuna ysgol eich plentyn ofyn am gymorth gan y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion. Bydd y daflen hon yn dweud wrthych am y gwasanaeth a beth i'w ddisgwyl.

**Pwy yw'r tîm Mewngymorth Ysgolion?**

Ymarferwyr iechyd meddwl a therapyddion sy'n gweithio ochr yn ochr â chymunedau ysgol yw'r tîm Mewngymorth Ysgolion. Mae'r gwasanaeth yn rhan o ddarpariaeth Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan Wasanaeth Mewngymorth Ysgolion dri phrif nod:

- Cynyddu sgiliau a hyder ymhlith staff yr ysgol yn ymwneud ag iechyd meddwl,
- Rhoi mynediad amserol i ysgolion i gyngor arbenigol, cyswllt ac ymgynghori gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol
- Gwella iechyd meddwl a lles disgyblion ysgol a staff

**Pam mae ysgol fy mhlentyn yn gofyn am ymgynghoriad gyda Mewngymorth Ysgolion?**

Mae'n bwysig eich bod yn cael sgwrs gydag ysgol eich plentyn am hyn. Mae rhai rhesymau cyffredin pam y gofynnir i'r tîm am gymorth, yn cynnwys:

- Plentyn sydd angen cymorth wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd neu sy'n newydd i amgylchedd yr ysgol
- Mae plentyn wedi profi digwyddiad penodol neu gyfres o ddigwyddiadau bywyd sy'n effeithio ar eu lles emosiynol a'u gallu i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.
- Mae plentyn yn cael anawsterau wrth fynychu'r ysgol
- Bu dirywiad yn lles emosiynol a gallu plentyn i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol
- I gael gwell dealltwriaeth o les emosiynol a seicolegol plentyn
- I ystyried y ffyrdd gorau o gefnogi anghenion emosiynol plentyn yn eu lleoliad addysg neu ysgol

**Beth yw sesiwn ymgynghori?**

Mae ymgynghriad â Mewngymorth Ysgolion yn sgwrs rhwng y tîm a'r staff yn yr ysgol sy'n adnabod eich plentyn yn dda. Mae'n gyfle i dimau ddod ynghyd â gwahanol feysydd gwybodaeth a sgiliau, i greu cyd-ddealltwriaeth o sefyllfa neu anhawster. Mae'n ffordd

anuniongyrchol o weithio gyda'ch plentyn drwy'r bobl y mae ganddynt berthynas ddiogel ac o ymddiriedaeth gyda nhw yn barod.

I ofyn am ymgynghoriad, mae staff yr ysgol yn llenwi ffurflen o'r enw 'Cais am Gymorth' gyda'u dealltwriaeth o:

- Wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig a phethau y rhoddwyd cynnig arnynt hyd yn hyn
- Y rheswm dros gysylltu â Mewngymorth Ysgolion
- Unrhyw beth arall sy'n berthnasol, gan gynnwys sylwadau a/neu bryderon

**Pwy fydd yn gysylltiedig?**

Wrth baratoi ar gyfer ymgynghoriad, bydd tîm Mewngymorth Ysgolion yn edrych ar gofnodion iechyd eich plentyn (a allai gynnwys gwybodaeth ddiogelu). Efallai bydd y tîm hefyd yn siarad â phobl eraill sy'n adnabod ac yn deall eich plentyn naill ai cyn, neu fel rhan o'r ymgynghoriad (fel staff yr ysgol, staff gofal cymdeithasol a/neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig). Nod hyn yw dod â gwahanol ddarnau o wybodaeth at ei gilydd er mwyn deall beth allai fod yn digwydd yn achos eich plentyn.

Nid yw plant a rhieni fel arfer yn mynychu ymgynghoriadau, gan mai nod Mewngymorth Ysgolion yw cefnogi'r ysgol i gefnogi'r plentyn. Fodd bynnag, gellir cynnig sesiwn ddilynol gyda rhieni os yw'n briodol (ar gais rhiant).

**Beth allai ddigwydd ar ôl ymgynghoriad?**

Mae llawer o'r gwaith y mae Mewngymorth Ysgolion yn ei wneud gyda'r ysgol, yn hytrach nag yn uniongyrchol gyda phlant, oherwydd bod yr oedolion yn yr ysgol yn adnabyddus i'ch plentyn ac yn aml mewn sefyllfa dda i helpu. Yn dilyn ymgynghoriad, gallai'r canlynol ddigwydd:

- Cyngor ac arweiniad i'r ysgol
- Ymgynghoriad parhaus i gadw mewn cysylltiad a pharhau i gefnogi trwy staff addysg
- Darparu hyfforddiant staff
- Cyfeirio/atgyfeirio i wasanaethau cymorth priodol ar gyfer plentyn a/neu deulu

Ar rai achlysuron, efallai y daw cymorth arall o ymgynghoriad. Os felly, byddwn yn cysylltu â chi/eich plentyn. Ymhlith yr opsiynau mae:

- Cyfarfod asesu gyda chi / eich plentyn i siarad mwy am eu heriau a beth allai helpu
- Gwaith grŵp
- Ymyrraeth un wrth un fer

**Cofnodi nodiadau**

Mae’r Gwasaneth Mewngymorth Ysgolion yn gwneud nodiadau clinigol wrth siarad gyda/am blant a theuluoedd. Mae'r nodiadau hyn yn cael eu cadw'n ddiogel ar gofnod iechyd electronig eich plentyn.

**Cwestiynau Cyffredin**

**Mae fy mhlentyn mewn argyfwng, beth ddylwn i ei wneud?**

Nid yw'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yn wasanaeth argyfwng. Os yw eich plentyn mewn argyfwng, mae'n bwysig cael cymorth yn gyflym. Os ydyn nhw mewn argyfwng, yn teimlo'n hunanladdol neu fel na allant ymdopi, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n siarad â rhywun ar unwaith a pheidiwch â'u gadael ar eu pen eu hunain.

Os ydyn nhw wedi anafu eu hunain yn ddifrifol neu wedi cymryd gorddos, ffoniwch 999 neu ceisiwch driniaeth feddygol ar unwaith o'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys.

Os yw eich plentyn eisoes yn gweithio gyda rhywun yn yr Adran Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl, gallwch gysylltu â'r tîm neu'ch cydlynydd gofal rhwng 9am – 5pm ar 02921 836730. Nid gwasanaeth argyfwng yw hwn ond efallai y gall helpu.

Os nad ydynt eisoes yn gweithio gydag un o'n timau, rydym yn argymell eich bod chi'n gwneud y canlynol:

Siarad â'ch meddyg teulu a all roi cyngor a gwneud atgyfeiriadau at y gwasanaeth Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl (gan gynnwys y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, drwy ffonio swyddfa'ch meddyg teulu a gwrando ar y neges), neu sganio'r cod isod am wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth, cyngor a chlust i wrando am ddim.

Mae angen help arna i nawr - CYPF Cymraeg

**Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn poeni am ddiogelwch fy mhlentyn?**

Mae adegau pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i’r tîm rannu gwybodaeth gyda phobl eraill, er enghraifft os dywedir unrhyw beth wrthym sy'n awgrymu y gallai eich plentyn neu rywun arall fod mewn perygl o niwed. Lle y bo'n bosibl, bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi a/neu eich plentyn yn gyntaf fel y bo'n briodol.

**Prosesu gwybodaeth**

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data o dan GDPR y DU yw Erthygl 6(1)(e) – tasg gyhoeddus; Erthygl 9(2)(g) - budd cyhoeddus sylweddol; ac Erthygl 9(2)(h) – darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 yw Atodlen 1, Paragraff 8 – Cyfle neu driniaeth gyfartal. Cedwir data yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022.

Ar gyfer unrhyw gwynion yn ymwneud â’r ffordd mae eich data wedi cael ei drin, cysylltwch ag Uhb.Dpo@wales.nhs.uk i weld mwy o wybodaeth ynghylch sut mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn https://bipcaf.gig.cymru/use-of-site/privacy-policy/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch schoolinreach.cav@wales.nhs.uk a bydd un o'r tîm yn hapus i drefnu amser i drafod.

*Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English*

SCHOOL IN-REACH SERVICE GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION | Emotional Wellbeing & Mental Health Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl | CYPF Children, Young People & Family Health Services | PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board